Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.




Rhifyn 336 (Cymru) – 5 Ionawr 2023

## Deddf Etholiadau: Ffurflenni cais papur y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Mae sampl o ffurflen gais bapur y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ar gael ar ein gwefan. Rydym wedi cyhoeddi hon nawr i roi cyfle i chi weld cynnwys y ffurflen yn gynnar, cyn bydd y gwasanaeth gwneud cais yn mynd yn fyw.

Bydd y set lawn o ffurflenni a fydd yn cael eu cyhoeddi ar yr un wefan pan fydd y gwasanaeth gwneud cais yn mynd yn fyw yn cynnwys:

- Ffurflen gais y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr
- Ffurflen gais y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ar gyfer pleidleiswyr sy'n gwasanaethu a phleidleiswyr tramor (sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel y 'ffurflen etholwr categori arbennig')
- Ffurflen gais y Ddogfen Etholwr Dienw
- Ffurflen gais hawdd ei darllen
- Ffurflen gais print bras
- Ffurflenni cais ieithoedd amgen

Mae'n rhaid i'r ffurflen sampl **beidio â chael** ei rhannu â'r cyhoedd cyn bod y gwasanaeth gwneud cais yn mynd yn fyw yn hwyrach y mis hwn.

## Wythnos Croeso i Dy Bleidlais

Fel yr amlygwyd ym Mwletin 332, cynhelir wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023 rhwng dydd Llun 30 Ionawr a dydd Sul 5 Chwefror.

Mae wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023 yn gyfle i ddechrau'r sgwrs am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth gyda phobl ifanc yn eich ardal.

'Ein Democratiaeth' yw thema eleni. Rydym am bwysleisio bod democratiaeth yn digwydd o'n hamgylch a bod pawb yn gallu cymryd rhan.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Deddf Etholiadau: Ffurflenni cais papur y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**

Gwybodaeth am ffurflen gais bapur y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a chysylltiad i sampl ohoni.

**Wythnos Croeso i Dy Bleidlais**

Diweddariad ar ein cynlluniau ar gyfer wythnos Croeso i Dy Bleidlais, a fydd yn cael ei chynnal rhwng 30 Ionawr a 5 Chwefror 2023.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau**

Gall ysgolion a grwpiau ieuenctid gymryd rhan yn ystod yr wythnos drwy gyflwyno gwersi, gwasanaeth, gêm democratiaeth, diwrnod democratiaeth oddi ar yr amserlen neu ymgyrch cofrestru pleidleiswyr.

Rhowch wybod i ysgolion a grwpiau ieuenctid yn eich ardal am wythnos Croeso i Dy Bleidlais, a rhannwch ein hadnoddau addysg ddemocrataidd hyblyg, gan gynnwys cynlluniau gwersi, gemau a gweithgareddau byr, a fideos animeiddiedig gyda nhw i'w helpu gyda'u cynllunio. Mae ein hadnoddau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ac wedi'u hanelu at gael eu defnyddio gyda phobl ifanc 14-18 oed, ond gwahoddir pleidleiswyr y dyfodol o unrhyw oedran i gymryd rhan yn wythnos Croeso i Dy Bleidlais.

Gofynnwch i ysgolion a grwpiau ieuenctid i gofrestru i gymryd rhan yn yr wythnos i gael eu hadnoddau Croeso i Dy Bleidlais rhad ac am ddim. Rhannwch sut mae'ch ardal yn dathlu Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ar gyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio #CroesoIchPleidlais a #EinDemocratiaeth.

Rydym hefyd yn ceisio cael ysgolion i gofrestru i ddarparu cyfres o gynlluniau chwe gwers a rhannu eu hadborth gyda ni fel y gallwn wella'r hyn rydym yn ei gynnig i ysgolion. Yn gyfnewid, caiff ysgolion eu rhoi mewn raffl i ennill adnoddau gwerth £500. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth am wythnos Croeso i Dy Bleidlais neu ein gwaith addysg ehangach, e-bostiwch learning@electoralcommission.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023

**a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**